**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**
Cofnodion o gyfarfod hybrid y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd
Dydd Iau, 20 Ebrill 2023 am 3.00 pm

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol: -

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)
Y Cynghorydd W Lewis   Y Cynghorydd G Hughes
Y Cynghorydd L A Tomkinson

**Roedd y Aelodau Pwyllgor Cynllunio a Datblygu canlynol yn bresennol ar-lein:-**

Y Cynghorydd J Bonetto   Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd G Hopkins   Y Cynghorydd C Middle
Y Cynghorydd R Williams

## Swyddogion oedd yn bresennol: -

Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Mr M Farley, Uwch Gynllunydd

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol: -

Y Cynghorydd K Morgan   Y Cynghorydd A O Rogers

## Ymddiheuriadu am absenoldeb

Y Cynghorydd M Powell   Y Cynghorydd J Smith

**248 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

**249 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**250 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

**251 COFNODION 23.03.23**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2023 yn rhai cywir.

**252 NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei hystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

**253 CAIS RHIF: 21/1491**

**Datblygiad preswyl o (35 o unedau) (cynlluniau diwygiedig wedi dod i law 23/05/22) (tystysgrif berchnogaeth ddiwygiedig a gwybodaeth marchnata ychwanegol wedi dod i law 24/05/22), TIR GYFERBYN AG YSTAD DDIWYDIANNOL BRYNGELLI, LÔN Y DDÔL, HIRWAUN, CF44 9PT.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Jason Evans (Asiant). Cafodd e bum munud i gyflwyno'r cais i'r Aelodau.

Siaradodd yr Aelodau Lleol, Cynghorwyr y fwrdeistref sirol K Morgan ac A Rogers, nad ydyn nhw'n aelodau o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi eu pryderon ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig.

Cyfeiriodd Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi at lythyr 'hwyr' a ddaeth i law oddi wrth Evans Banks Planning yn cefnogi'r cais.
Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais. Yn wreiddiol, cafodd ei adrodd i'r Pwyllgor ar 1 Rhagfyr 2022, pan aeth Aelodau ati i ohirio dod i benderfyniad arno er mwyn cael asesiad sŵn manylach (Cofnod 148).

Rhoddodd yr aelodau ystyriaeth i'r adroddiad pellach, ac yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNWYD** caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr, Ffyniant a Datblygu. Roedd hyn yn ddarostyngedig i gytundeb adran 106 i sicrhau bod y tai fforddiadwy yn cael eu sefydlu a'u cynnal yn unedau fforddiadwy, er mwyn parhau i fodloni anghenion tai lleol a nodwyd. Roedd hefyd yn amodol ar ddiwygio amodau 3, 4, 5 a 6 i gyfyngu ar ddatblygu unrhyw waith uwchben y ddaear, aralleirio amod 9 i'w ddarllen yn unol â fel sydd wedi'i nodi isod, a diwygio amod 10 i ychwanegu 'a'i gadw am byth' at ddiwedd yr amod.

9. Rhaid i'r holl ffenestri yng ngwedd flaen ddwyreiniol y tai sydd agosaf at yr unedau diwydiannol ar Stad Ddiwydiannol Bryngelli, a ddangosir yn ffigwr 2 o'r adroddiad asesiad sŵn, fod o ddim llai na 32dB Rw + Ctr, ac awyryddion o ddim llai na 38dB Dnew + Ctr.

   Rheswm: Er budd amwynder preswyl i drigolion y dyfodol ac i sicrhau bod y datblygiad yn cyrraedd lefelau sŵn mewnol yn unol â BS8233:2014, yn unol â Pholisi AW5 ac AW10 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

(Nodyn: Roedd Cynghorydd y fwrdeistref sirol C Middle wedi ymatal rhag pleidleisio ar yr eitem hon, ar ôl ymuno â'r cyfarfod yn hwyr ac felly doedd e ddim yn bresennol ar gyfer y ddadl lawn).

**254 CAIS RHIF: 22/1412**

**Cais cynllunio llawn i ddymchwel adeiladau presennol; datblygiad cartref gofal arfaethedig i gefnogi oedolion ag anableddau dysgu (13 o ystafelloedd gwely en-suite ac 1 ystafell wely seibiant), gwaith tirlunio, draenio cynaliadwy, mynediad, lleoedd parcio a gwaith cysylltiedig. (Disgrifiad diwygiedig wedi dod i law 09/03/23) CARTREF GOFAL BRONLLWYN, HEOL COLWYN, GELLI, PENTRE, CF41 7NW.**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais. Yn wreiddiol, cafodd ei adrodd i'r Pwyllgor ar 9 Mawrth 2023, pan aeth yr Aelodau ati i ohirio penderfyniad ar y cais er mwyn galluogi ei ddiwygio ac ail-gynnal ymgynghoriad cyhoeddus (gweler Cofnod 223).

Cywirodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi ddisgrifiad y cais, a oedd wedi'i nodi'n anghywir yn yr adroddiad, i'w ddarllen yn unol â fel mae wedi'i nodi isod. Cadarnhaodd fod ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal eto gan ddefnyddio'r disgrifiad cywir:

Cais cynllunio llawn i ddymchwel adeiladau presennol; datblygiad cartref gofal arfaethedig i gefnogi oedolion ag anableddau dysgu (13 o ystafelloedd gwely en-suite ac 1 ystafell wely seibiant), gwaith tirlunio, draenio cynaliadwy, mynediad, lleoedd parcio a gwaith cysylltiedig. (Disgrifiad diwygiedig wedi dod i law 09/03/23) CARTREF GOFAL BRONLLWYN, HEOL COLWYN, GELLI, PENTRE, CF41 7NW.

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**255 CAIS RHIF: 22/1465**

**Gosod a gweithredu cyfres o baneli PV solar 300kW ar dir ger Safle Tirlenwi Bryn Pica – gwaith trin elifion. Bydd y pŵer trydanol a gynhyrchir yn cael ei ddefnyddio'n bennaf yn ffynhonnell pŵer trydanol ar gyfer y Gwaith Trin Elifion ar y safle, AMGEN CYMRU CYF, SAFLE GWAREDU GWASTRAFF BRYN PICA, HEOL MERTHYR, LLWYDCOED, ABERDÂR, CF44 0BX.**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**256 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â Phenderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a oedd wedi dod i law, Ceisiadau wedi'u Cymeradwyo a'u Gwrthod gyda rhesymau trwy'r drefn Penderfyniadau wedi'u Dirprwyo, Crynodeb o'r Achosion

Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi trwy'r drefn Ddirprwyo ar gyfer y cyfnod 27/03/2023 tan 07/04/2023.

**Daeth y cyfarfod i ben am 3.50 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**